

Pris: 40c

Papur Pawb

Rhagfyr 2006

Rhif 324



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i’n holl ddarllenwyr!

Cau Caffi Clettwr



Syfrdanwyd ardal gyfan brynhawn Gwener, 1af o Ragfyr pan gaewyd drysau’r caffi, siop a’r gwasanaethau yn Nhref Ddôl yn hollol ddisymwrth, gyda rhwng 10 a 15 o staff llawn a rhan-amser yn colli’u gwaith yn hollol ddirybudd ychydig cyn y nadolig fel hyn. Ym mis Medi 2005 trosglwyddwyd awenau Gwasanaethau Clettwr, y bu Huw a Susan Lewis yn ei redeg am gyfnod o 27 mlynedd, i Gwmni Tŷ Te Cyf sydd â 6 cyfarwyddwr, yn staff presennol a chyn aelodau o staff ‘Menter a Busnes’. Wrth i Bapur Pawb fynd i’r wasg cawn ar ddeall fod y cwmni wedi gobeithio parhau hyd y nadolig, cyn asesu’r sefyllfa bryd hynny, ond yn dilyn amgylchiadau anodd i’r fenter bu’n rhaid gwneud y penderfyniad i gau’r wythnos diwethaf a dirwyn y busnes i ben.

Bydd rhaid aros i weld beth fydd dyfodol y gwasanaethau. Dywedodd Huw a Susan: “Mae hyn wedi bod yn sioc ac yn siom i ni. Roeddem yn ymwybodol fod trafferthion, ond eto wedi gobeithio, oherwydd y profiad a’r cysylltiadau oedd gyda’r cwmni, y byddent wedi medru dod o hyd i bobl oedd gyda diddordeb mewn ymgymryd â’r busnes. Mae’n anhebygol y bydd yn ail-agor yn y dyfodol agos ac fe fydd ail-godi’r busnes yn ôl yn dalcen caled.”

Fe fydd y gymuned gyfan yn gobeithio bod modd i’r perchnogion chwilio cwmni neu unigolion eraill i gymryd at y busnes yn fuan. Nid tasg hawdd fydd honno gyda chynnal busnes llewyrchus a phroffidiol yng nghefn gwlad yn mynd yn fwy ac yn fwy anodd, gyda phrisiau petrol yn hynod gystadleuol a chreu unrhyw fath o elw o siop a chaffi gwledig yn galed. Er mwyn sicrhau fod busnes fel hyn yn gynaliadwy, rhaid dibynnu cryn lawer ar wanwyn, haf a hydref cynnar llewyrchus i’w cynnal trwy fisoedd llwm a thawel y gaeaf. Byddai colli’r gwasanaethau a’r swyddi lleol yn ergyd drom i’r ardal ac yn enghraifft drist unwaith yn rhagor o sefyllfa fregus ein cymunedau gwledig. Gyda’r swyddfa bost eisoes wedi cau, dim ond y dafarn sydd bellach ar ôl yn y pentref.

Hyderwn y bydd Papur Pawb yn medru adrodd newyddion calonogol am y gwasanaethau yn y flwyddyn newydd.

Ffair y Neuadd t13

Golygydd Cyffredinol:	Geraint Evans Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion post@garnwen.org Cysyllter â golygyddion y mis. Carys Briddon	(01970) 832473
Tynnu lluniau: Teipyddes:		
Bont-goch: Parsel Henlllys: Eglwysfach: Talesin: Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Hilda Thomas, Cwmere, Bont-goch Dilys Morgan, Alltgoch Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais Mai Leeding, Glannant, Talesin Aileen Williams, Maesmeillion Kathleen Richards, Y Bryn Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl Janet Evans, Cefngweiriog Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	832295 832498 (01654) 781312 832672 832438 832201 832429 (01654) 781260 832483
Maes y Deri:		
Cadeirydd: Is-gadeirydd: Ysgrifennydd: Trysorydd: Aelodaeth: Hysbysebion: Plygu: Dosbarthwyr:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Gwenallt Llwyd Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Eurllys Jones (Tanysgrifiadau)	832660 832448 832384 832560 832438 (01654) 781312

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

RHAGFYR

- 10 Bethel** 10 Parch W.J.
Edwards
Nasareth 10 W.J. Edwards
(Bethel)
Rehoboth 10 Beti Griffiths
Eglwys Dewi Sant 2.30
Gosber a Chymun
Bendigaid
- 12 C.Ff.I. Tal-y-bont a'r
Cylch.** Canu Carolau
- 13 Cwmni Theatr Bara Caws,**
'Actus Reus', Neuadd Goffa
Tal-y-bont, 7.30
- 14 Pantomeim Ysgol Tal-y-
bont,** Neuadd Goffa, 7.00.
- 14 Sefydliad y Merched Tal-y-
bont.** Parti Nadolig
- 17 Bethel** 10 Gweinidog
Nasareth 10 R.H. Lewis
(Bethel)
Rehoboth 10 Gordon
MacDonald (C)
Eglwys Dewi Sant 11
Cymun Bendigaid
Bethel 6 Merched y Wawr
Tal-y-bont a'r Cylch. Noson
o Garolau ac eitemau gan
Gymdeithasau Tal-y-bont a'r
cylch
- 19 C.Ff.I. Tal-y-bont a'r
Cylch.** Parti Clwb
- 20 Cymdeithas Sioe Tal-y-
bont.** Gyrfa Chwist
Dofednod, Neuadd Goffa
Tal-y-bont, 8 p.m.
- 24 Bethel** 5.30 Gwasanaeth y
plant
Nasareth
Rehoboth
Eglwys Dewi Sant 9.30
Boreol Weddi a Chymun
Bendigaid
- 25 Bethel** 10 Gweinidog
Eglwys Dewi Sant 8.30
Cymun Bendigaid
Eglwys St. Pedr, Elerch.
Cymun Bendigaid, 8 o'r
gloch y bore
- 26 Eglwys Dewi Sant.** Gweler
yr hysbysfwrdd

**CYMDEITHAS
SIOE TAL-Y-BONT
RHAGHYSBYSIAD**

GYRFA CHWIST

DOFEDNOD

Neuadd Goffa Tal-y-bont
8 p.m.
20 Rhagfyr 2006

- 31 **Bethel** 10 Gweinidog
Nasareth
Rehoboth
Eglwys Dewi Sant 10 a.m.
Cymun Bendigaid
- IONAWR**
- 4 **Sefydliad y Merched Tal-y-bont.** Cinio yn y Llew Du, Derwenlas, 12.30
- 7 **Bethel** 2 Uno yn Nasareth
Nasareth
Rehoboth
Eglwys Dewi Sant 2.30
Cymun Bendigaid
- 9 **C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch.** Alison Jones, Rali Ewropeaidd, Latvia
- 14 **Bethel** 2 Gweinidog
Nasareth
Rehoboth
Eglwys Dewi Sant 2.30
Gosber a Cymun Bendigaid
- 15 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch.** Caryl Lewis, Goginan: Gemwaith
- 16 **C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch.** I'w gadarnhau
- 18 **Sefydliad y Merched Tal-y-bont.** Cyfarfod Prynhawn, 2-3, Parch David Gibson
- 19 **C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch.** Cinio blynyddol
- 21 **Bethel** 10 Gweinidog
Nasareth
Rehoboth
Eglwys Dewi Sant 11
Cymun Bendigaid
- 28 **Bethel** 6 Parch John Tudno Williams
Nasareth
Rehoboth
Eglwys Dewi Sant 9.30
Boreol Weddi

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont (01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Rhian a Catrin, gyda Ceri'n dylunio. Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Gwyn a Fal (832560; gwyn@tal-y-bontfsworld.co.uk) a Mareid, gyda Sara ac Ian yn dylunio. Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn dydd Gwener 5 Ionawr 2007 a bydd y papur ar werth ddydd Gwener 12 Ionawr.

**Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd Dda** i fy
ffrindiau a holl ddarllenwyr
Papur Pawb oddi wrth
Kathleen Richards, Bryn,
Tal-y-bont. Nid wyf yn
medru danfon cardiau eleni,
ond byddaf yn rhoi cyfraniad
tuag at elusen.



**YSGOL GYNRADD
LLANGYNFELYN**

Sioe Nadolig

14 Rhagfyr
6.00yh

Neuadd Llanfach
Croeso i bawb

EGLWYS ST. PEDR,
ELERCH
GWASANAETH
CAROLAU

Nos Fercher, 13 Rhagfyr
7 o'r gloch
Casgliad tuag at Shelter Cymru
Croeso cynnes i bawb

Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach
CANWYR DYFI
CYNGERDD AR NOS SUL

17 RHAGFYR
AM 7.00 O'R GLOCH
Casgliad tuag at yr Eglwys
Croeso cynnes i bawb

**Cyngor Cymdeithas
Ceulanamaesmawr**

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau oddi mewn i'r gymuned. Anfoner ceisiadau, ynghyd â chopi o'r fantolen ariannol ddiweddaraf, at y Clerc, Goronwy Wyn Jones, Glasgoed, Talybont SY24 5HH erbyn **3 Chwefror 2007** fan bellaf.

YSGOL FEITHRIN
TAL-Y-BONT
**Cyngerdd
Nadolig
a Noson Goffi**

18 Rhagfyr – 6.30yh
Neuadd Goffa Tal-y-bont
Dewch yn llu

GOLEUADAU NADOLIG

Bydd goleuadau Nadolig Tal-
bont yn cael eu rhoi ymlaen ar
Nos Lun, 11 Rhagfyr
Neuadd Goffa
4.30 o'r gloch

Dewch yn llu i ganu carolau
Lluniaeth ysgafn ar gael
Croeso cynnes i bawb

Clwb Ieuenctid Talybont

CALENDR

Bydd aelodau'r clwb yn gwerthu calendrau 2007 yn fuan. Dim ond ychydig sydd ar gael.

SWYDD NEWYDD

Pob lwc i Ioan Gwyn, Maesgwyn, Tal-y-bont, yn ei swydd newydd yng Nghaernarfon.

Pob hwyl i Heledd Bradley ar ei swydd newydd fel cogyddes yn Ysgol Gymunedol Penrhych-coch.

PRIODAS RUDDDEM

Dymuniadau gorau i Dewi a Tegwen Evans, Penygraig, Bontgoch ar ddathlu eu priodas ruddem ar y 26ain Tachwedd.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Eilir Huws, Henllan ar ennill y 3eddwobr yn yr Ŵyl Gerdd Dant fel aelod o driawd telyn.

CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn gyda theulu Eurfan, Tal-y-bont ar farwolaeth chwaer Eurllys, sef Mrs Morris o Langwryfon.

Cydymdeimlwn â Cyril, ei frawd John a'u teuluoedd ar farwolaeth Gwyn Bond, gynt o New Terrace, Taliesin, yng nghartref Abermad.

Cydymdeimlwn gyda Teresa Evans a'r teulu, 15 Maes y Deri, ar golli ei brawd-yng-nghyfraith Morris Thomas Evans, Llanbryn-mair, yn ddiweddar.

BRYSIWCH WELLA

Pob dymuniad da i Arwyn Evans, Cefngweriog, a Gareth Humphreys, Maes y Deri, wedi i'r ddau gael llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Pob dymuniad da am wellhad llwyr a buan i Mair Jenkins, Ynyseidiol, Ffwrnais, a Hywel Williams, Cynnull Mawr, sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

Dymunwn wellhad buan i Mrs Dare, Bontgoch a David Elwyn Griffiths, Nant Ddu.

CROESO I WYRES FACH


Llongyfarchiadau i Maureen a John Bumford, Llew Gwyn, Talybont, ar ddod yn fam-gu a thad-cu yn ddiweddar. Mae Imogen Rose yn ferch i Rhiannon ac Ian McKenzie.

ARHOLIAD FFIDIL

Llongyfarchiadau i Ciara Laverty ar basio ei arholiad Gradd 8 Ffidil gydag Anrhydedd.

LLONGYFARCHIADAU

Da iawn ti, Medi Evans, Neuadd Fawr, Tal-y-bont ar basio Gradd 1 gydag anrhydedd ar y delyn.



Pen blwydd arbennig

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Dr Eirwen Gwynn, Cwmcerwyn, Tal-y-bont, a ddathlodd ei phen blwydd yn 90 oed ddydd Gwener 1 Rhagfyr. Da clywed ei bod wedi cael dod adref o'r ysbyty ar gyfer y dathliadau.



Fuches Organig Orau

Enillodd Teulu Tyngraig y wobwr gyntaf mewn cystadleuaeth a gynhelir gan y Gymdeithas Gwartheg Duon Cymreig am y Fuches Organig Orau yng Nghymru, am y flwyddyn 2006.

DYMUNIADAU PEN BLWYDD

Anfonwn ein cofion cynnes at y Parch. Owen Williams, gynt o Hafodawel, Talybont, a ddathlodd ei ben blwydd yn 96 oed ganol Tachwedd.

Llongyfarchiadau i Eleri Huws, Pengwern, ar gyrraedd y 60 ar 1 Rhagfyr.

Llongyfarchiadau i Emyr Thomas Lletylwydin ar ddathlu pen-blwydd arbennig.

Dymuniadau gorau i Mrs Jenkins, Cwmudw, ar ddathlu ei phen blwydd yn 95 oed yn ddiweddar.

SYMUD TŶ

Pob dymuniad da i Lowri Fleming, John Jenkins a Becca Fflur yn eu cartref newydd yn 14 Maes y Deri. Hefyd i Mrs Grace Moliton, o Dywyn, sydd wedi ymgartrefu yn 63 Maes y Deri.

GLANDYFI

Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs Pipper, Castell Glandyfi.

PÊL-DROED

Cafodd Huw Evans, Cefngweiriog, ddiwrnod i'w gofio pan gafodd y fraint o fod yn fasgot i Glwb Pêl-droed Aberystwyth, roeddent yn chwarae'n erbyn Cei Conna.

MERCH LEOL YN GYFARWYDDWR

Llongyfarchiadau i Lynwen Rees Jones, Llys y Bryn, Tre'r-ddôl, ar gael ei phenodi'n Gyfarwyddwr ar y Ganolfan Astudiaethau Addysg ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth. Daw Lynwen yn wreiddiol o bentref Treboeth, Abertawe, ac ar ôl derbyn ei haddysg yn Ysgol Gyfun Ystalyfera a Phrifysgol Abertawe, bu'n dysgu gwyddoniaeth a mathemateg yn Ysgol Uwchradd Caereinion. Bu'n gyfieithydd llawrydd am sawl blwyddyn, tra oedd yn magu teulu, cyn mynd yn olygydd/rheolwr projectau yn y Ganolfan y mae hi bellach yn bennaeth arni. Dymunwn bob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd.

TARW YN Y STADIWM

Braf oedd gweld Trevor Jones, Cwm Cae, a'i darw du Cymreig Cwm Cae Brenin III yn arwain y côr i'r cae yn Stadiwm y Mileniwm oedd dan-ei-sang eiliadau cyn gêm Cymru yn erbyn Seland Newydd. Mae hyn yn glod mawr i fuches Cwm Cae ar Gymdeithas Wartheg Duon yn gyffredinol.

Ysgol Gymunedol Tal-y-bont



Bu mis Tachwedd yn gymharol dawel – pawb yn paratoi at y Nadolig mae’n siŵr! Cofiwch ymuno gyda ni ar gyfer y Panto yn y Neuadd Goffa ar Nos Iau y 14eg. Bydd y noson yn cychwyn gyda chyngerdd yn brydlon am 7.00. Mae croeso i chi ymuno gyda ni wedyn yn yr ysgol am baned a mins pei.

Ar ddechrau’r mis cafodd Blwyddyn 5 a 6 y cyfle o ddysgu a pherfformio drama i’r ysgol gyfan a hynny mewn diwrnod! Diolch yn fawr iawn i Marc am hyfforddi’r plant, roedd yn brofiad ardderchog.

Bu dosbarth Mr Davies mewn coedwig ger Machynlleth am dri bore yn dysgu am goed ac am fyd Natur. Roedd y weithgaredd yn rhan o gynllun Ysgol y Goedwig ac roedd yn brofiad arbennig i’r plant gael bod allan o’r dosbarth mewn awyrgylch hollol wahanol.

Daeth cynllun Rhif a Chwarae i ben yn ystod mis Tachwedd. Dyma gynllun arbennig i rieni gydweithio gyda’u plant i greu adnodau mathemateg. Diolch yn fawr iawn i bawb am fynychu’r cwrs ac am gefnogi’r ysgol a diolch yn fawr iawn i Mrs Rose Jones am drefnu’r weithgaredd. Roedd yn fuddiol i bawb.

Nofio

Bu nifer o blant o ysgol Tal-y-bont yn cystadlu yng ngala nofio’r Urdd cylch Aberystwyth a Thregaron yn ddiweddar. Bu Catrin a Nia yn llwyddiannus ac aethom ni ymlaen i gystadlu yng ngala’r sir ym Mhlascrug. Daeth Nia yn drydydd yn y ras gymysg unigol i ferched. Yr amser oedd 1:49.57. Daeth Nia hefyd yn ail yn y ras broga. Yr amser oedd 00:59.57. Daeth Catrin yn ail yn y ras pili pala mewn amser o 00:49.25 a hefyd daeth Catrin yn gyntaf yn y dull rhydd mewn amser o 00:39.18. Roedd llawer o bobl yn y gala nofio. Cawsom lawer o hwyl yng ngala nofio’r Urdd eleni eto.


Nia a Catrin



Bu’r ysgol yn brysur iawn yn casglu arian at achosion da dros y mis diwethaf hefyd. Casglwyd dros £670 o bunnoedd rhwng ein sillafu noddedig yn yr ysgol a’r Gwasanaeth Diolchgarwch. Cafwyd anerchiad pwrpasol gan Dennis Davies o’r elusen yn ystod y Gwasanaeth, ac fe’i groesawyd yn wresog yn ôl i’r ysgol i dderbyn y siec.

Codwyd bron i £70 ar ddiwrnod Plant Mewn Angen hefyd wrth i’r plant wisgo gwisg yn seiliedig ar thema’r tymor hwn, sef Ffermio, a thrwy werthu cacennau a baratowyd gan aelodau brwd y Clwb ar ôl Ysgol.

Llongyfarchiadau mawr i bawb.



Llongyfarchiadau mawr i dîm Cwis Llyfrau’r ysgol am gystadlu mor frwd yn y gystadleuaeth yma a drefnwyd gan Lyfrgell Ceredigion. **Gwil Bril a’r Robot** oedd y llyfr gosod eleni ac roedd yn ddewis poblogaidd iawn gan y tîm. Da iawn chi fechgyn.

SUL Y COFIO

Yn y Neuadd Goffa yn ôl yr arfer cynhaliwyd gwasanaeth Sul y Cofio Tachwedd 12ed 2006 dros bawb a wasanaethodd, a’r rhai o’r gymuned a gollodd eu bywydau yn y ddau Ryfel Byd. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig D. Brian Thomas. Cafwyd dwy funud o ddistawrwydd am unarddeg o’r gloch a darllenwyd rhestr o enwau’r rhai a fu farw gan Mr Goronwy Jones. Gosodwyd y torchau pabi ar y coflechi gan Mr Bob Southgate a Mrs Doris Pierce. Canwyd yr utgorn olaf gan Dennis Foster a Mrs Elizabeth James fu’n cyfeilio ar y piano. Yn ystod y gwasanaeth casglwyd £80.15 tuag at Lleng Brydeinig Frenhinol (Apêl Pabi).

Cydnabyddir yn ddiolchgar haelioni’r pentrefwyr yn dilyn y Rhyfel Mawr a alluogodd i’r Neuadd Goffa gael ei hadeiladu ac sydd yn parhau i fod yn gaffaeliad i’r pentref.

Cronfa Eleri

Blwyddyn 2006 – £12,400 i’w rannu

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy’n cydnaws ag amcanion y Gronfa

Ffurflen gais ar gael oddiwrth: Ysgrifennydd Y Gronfa
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ

Tel: 01970 832551 e-bost: loio.apgwynn@tiscali.co.uk

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 10fed 2007

Amcanion Cronfa Eleri

*‘Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol
cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu’*

Ysgol Gymunedol Llangynfelyn

Parti Mr Urdd yn 30 oed

Bore i'w gofio oedd hi pan aeth aelodau'r Urdd i fyny i Neuadd Pontrhydfendigaid i ddathlu pen blwydd Mr Urdd yn 30 oed. Dan arweiniad dawnus a diddorol Martin Geraint, cafwyd gwledd o ganu a rhialtwch, a chafwyd cyfle i gyflwyno carden benblwydd i Mr Urdd ei hunan. Gobeithio na fydd angen aros am 30 mlynedd arall cyn cael parti o'r math hyn eto!

Pêl-droed 5 bob ochr

Llongyfarchiadau i'r garfan bêl-droed a gystadlodd yng nghystadleuaeth 5 bob ochr yr Urdd yng Nghanolfan Plascrug yn ddiweddar. Er iddynt ymdrechu yn lew, ni fuont yn llwyddiannus y tro hwn, ond cafwyd amser da, ac roedd y profiad o chwarae yn gystadleuol yn fuddiol iawn.

Prosiect y Filltir Sgwar

Mae'r ysgol wedi bod yn ffodus iawn i fod yn un o chwech ysgol drwy Gymru i gael cyd-weithio gydag artist lleol i ddatblygu dealltwriaeth y plant o'r filltir sgwar. Braint oedd cael cyd-weithio gyda Catrin Webster o'r Borth, a wnaeth waith gwybodaeth gyda'r plant gan ddangos brwdfrydedd ac amynedd di-ben-draw. Bu'r budd i'r disgyblion yn anhygoel, ac maent wedi mwynhau y profiad yn fawr iawn. Cawsant ddysgu trawsgwricwlaidd, drwy ddysgu am hanes a daearyddiaeth yr ardal leol drwy lygaid celfyddydol. Golygodd lawer o waith allan yn y pentref, a bu hyn wrth ddant pawb.

Taith at y Brenin Arthur a'r Ganolfan Dechnoleg Amgen

Un o weithgareddau pwysig prosiect y Filltir Sgwar oedd cael mynd i Ogof y Brenin Arthur, Corris er mwyn datblygu dealltwriaeth o hanes yr ardal, drwy fynd rhyw filltir o dan y ddaear, yn dilyn twneli a gloddiwyd gan y dynion lleol. Rhoddodd hyn well dealltwriaeth o'r gweithfeydd mwyn oedd yn ardal Taliesin, a'r amodau gwaith oedd gan y bobl leol.

Ar y ffordd adref, arhosom yn y Ganolfan Dechnoleg Amgen er mwyn datblygu syniadau o sut y byddai y pentref yn medru datblygu yn y blynyddoedd i ddod.

Yn dilyn yr ymchwil hyn cynlluniodd y disgyblion fodel o'r pentref yn y gorffennol, a model o bentref y dyfodol, a chafwyd noson hyfryd pan ddaeth y rhieni mewn i weld gwaith y plant, i gwrdd a Catrin Webster ac i fwynhau yr awyrgylch.

Noson Tân Gwylt

Ar Dachwedd 2il, cynhaliodd y Gymdeithas Rieni ac Athrawon eu noson Dân Gwylt Flynyddol, ac eleni cafwyd noson o dywydd hyfryd. Roedd neuadd yr ysgol yn llawn dop wrth i bawb fwynhau cwpanaid o gawl cynnes, gan edrych ar wisgoedd ffansi y plant a rhai o'r oedolion!

Allan a phawb wedyn i gae yr ysgol i fwynhau sioe wefreiddiol o liw a swm, a drefnwyd ac a noddwyd gan Bartneriaeth Hayes McKenzie. Diolch yn fawr iawn iddyn nhw am eu cefnogaeth, ac i'r G R A am eu gwaith di-flino dros yr ysgol.

Gwasanaeth Diolchgarwch

Braf oedd gweld Neuadd Llanfach yn gyfforddus lawn ar gyfer gwasanaeth diolchgarwch yr ysgol, pan gafwyd y pleser o gael Mrs Dulcie James yn annerch y plant mewn ffordd ddiddorol iawn. Bu'r plant yn cyfrannu i'r gwasanaeth hefyd, ac fe orffennwyd drwy wyllo fideo byr o bobl yn Nwyrain Ewrop yn derbyn rhoddion mewn Bocsys Esgidiau Nadolig.

Gala Nofio yr Urdd

Llongyfarchiadau i'r holl blant a gafodd eu dewis i gynrhychioli'r ysgol yn y Gala Nofio diweddar. Fe wnaeth pob un yn dda iawn, ond llongyfarchiadau calonnog i Ruth Dingle sydd wedi llwyddo i fynd i Gala Nofio Cymru Gyfan yn Abertawe yn y flwyddyn newydd. Pob hwyl iddi.

Ymweliad Mary Mestecky

Cafwyd prynhawn diddorol iawn yng nghwmni Mrs Mary Mestecky, awdures y llyfr "Guarding the Treasure". Bu'n darllen rhannau o'r llyfr gyda'r plant, ac yn trafod y stori a thechnegau ysgrifennu stori, a chafodd y disgyblion dipyn o ysbrydoliaeth o'i hymweliad.



Bocsys Nadolig i Blythswood

Eleni eto casglwyd Bocsys esgidiau Nadolig i anffodusion yn Nwyrain Ewrop a llefydd eraill, a braf yw cadw cysylltiad gyda Mr Evan Davies, cynrhychiolydd elusen Blythswood yn yr ardal.

Ysgol y Goedwig

Yn ystod y tymor hwn, mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yr ysgol wedi cael y cyfle i ddysgu mewn awyrgylch awyr agored, drwy fynd i Ysgol y Goedwig yr ochr arall i Fachynlleth. Mae profiadau'r plant yn cael eu ehangu drwy brofi addysg mewn cyd-destun hollol wahanol, ac mae'r athrawon, wrth gwrs, wrth eu bodd i fod allan o'r ystafell ddosbarth!



Gwalltiau Gwylt i Blant mewn Angen

Penderfynodd ein cyngor ysgol y dylent ddilyn awgrym rhai o'r disgyblion, a chynnal diwrnod Gwalltiau Gwylt er mwyn codi arian i gronfa Plant Mewn Angen. Braf oedd gweld holl blant yr ysgol a'r staff wedi ymdrechu yn lew ar gyfer yr achlysur, a llongyfarchiadau mawr i'r plant a gasglodd gyfanswm o £120.


Wythnos Parchu Eraill

Braf oedd cael cymryd egwyl fach o brysurdeb y tymor yn ystod wythnos Parchu Eraill, a ddechreuodd ar Dachwedd 20fed. Roedd yn dda i gael sesiynnau gwahanol i ystyried sut oedd sicrhau fod bwlio yn cael ei stopio, a sut mae dangos parch at eraill. Cyfrannodd y disgyblion yn dda i'r sesiynnau a chafwyd budd ohonynt.

Arlunwyr o Fri

Llongyfarchiadau mawr i Archie Davies, Nina Davies a Ffion Hicks am ennill cystadleuaeth arlunio gyda'r Cambrian News yn ddiweddar.





Iwan Thomas, Byron Jenkins a Harry James

Partner newydd, gorwelion newydd i gwmni penseiri adnabyddus

Mae un o benseiri ifanc disglair Cymru wedi cael ei wneud yn bartner gyda'i gwmni yn Aberystwyth.

Bydd dyrchafiad Iwan Thomas yn helpu i gryfhau gallu James Jenkins Thomas i gystadlu yn erbyn cwmnïau mawr o bant am gytundebau sylweddol trwy Ogledd a Gorllewin Cymru, tra'n cynnal eu henw da yn dylunio cartrefi ac adeiladau llai sy'n llawn dychymyg.

Tra'n gweithio i'r practis, Iwan oedd yn gyfrifol am gynllunio adeilad trawiadol y Drwm ynghanol y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth – un o nifer o gynlluniau uchel eu proffil.

Mae newydd orffen gweithio ar Ganolfan Ymwelwyr yng Nghoed y Brenin, ger Dolgellau - sy'n defnyddio technegau newydd, modern, a "gwyrd", i greu adeilad cynaliadwy hardd – ac ar hyn o bryd mae'n goruwchwilio cynllun £1.8 miliwn i weddnewid cartref cwmni theatr Arad Goch, yn Aberystwyth.

"Mae gwneud Iwan yn bartner yn y cwmni yn gydnabyddiaeth o'i gyfraniad at ein llwyddiant ni," meddai Harry James, un o ddau sylfaenydd cwmni James Jenkins yn Aberystwyth.

James Jenkins Thomas fydd yr enw bellach ac mae Harry James yn hapus y bydd y partner newydd yn sicrhau dyfodol a safon y cwmni am flynyddoedd i ddod. Fe gafodd y practis ei sefydlu yn 1988 ac mae Iwan yn gweithio iddo ers 1995.

"Mae Iwan yn perthyn i genhedlaeth newydd o benseiri, sy'n defnyddio dulliau a syniadau ffresh," meddai Harry James. "Mae e'n ychwanegu dimensiwn arall at ein gwaith."

Y gobaith yw y bydd James Jenkins Thomas bellach yn ymestyn i weithio rhagor yng Ngogledd Cymru ac i lawr ymhellach i gyfeiriad Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin.

Yn ogystal â gwaith Iwan Thomas, mae'r practis wedi bod yn gyfrifol am brosiectau mawr megis Pentre Myfyrwyr a rhai neuaddau preswyl y Brifysgol yn Aberystwyth a phencadlys newydd y Mudiad Ysgolion Meithrin.

"Yn ogystal â'r prosiectau hyn, r'yn ni'n gwneud pob math o waith, o estyniadau bychain ar gartrefi pobl, i dai ac adeiladau cyhoeddus," meddai Harry James.

"Y peth pwysig yw ein bod ni'n rhoi'r un gofal a dychymyg i bob un – mae dylunio da yn hanfodol i bob prosiect."


Tal-y-bont yn serennu!

Roedd y rhaglenni ar Radio Cymru nos Sul 26 Tachwedd yn brawf digamsyniol o'r dalent sydd i'w gweld yn yr ardal hon! Yn ogystal â llwyddiant beirdd lleol tîm y Talwrn – y gellir darllen am eu llwyddiant mewn man arall yn y rhifyn hwn – roedd yna eitemau cynhwysfawr ac iddynt flas lleol ar raglen Dei Tomos. Bu Dr Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont, yn trafod pwysigrwydd prosiect yn yr Adran Gymraeg, Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth i ddigideiddio cyfrolau *Welsh Genealogies AD 300-1500* (P.C. Bartrum). Wedi amlinellu camp anferthol Bartrum yn casglu gwybodaeth sy'n amhrisiadwy i'r sawl sy'n ymddiddori mewn hel achau teuluol o'r oesoedd canol, aeth Bleddyn ymlaen i sôn am ei hynafiaid ei hun – gan gynnwys y bardd Ceiriog, a pherthynas pell iddo oedd yn gefnogwr brwd i ymgyrchoedd Owain Glyndŵr. Mewn cyfweiliad estynedig arall ar yr un rhaglen bu Dr Eirwen Gwynn, Cwmcerwyn, Tal-y-bont yn bwrw golwg dros hanes ei bywyd a'i gyrfa ac yn arbennig y rhagfarn a brofodd ymhlith gwyddonwyr yn erbyn merched yn ystod ei chyfnod fel myfyriwr ac wedi hynny.

Senedd-dy Machynlleth ar DVD Hanes Newydd

Mae DVD Hanes newydd wedi cyrraedd y siopau ar gyfer y rhai sy'n chwilio am anrheg Nadolig wahanol. Gyda llais yr hanesydd enwog Dr John Davies i'w glywed ar y DVD, mae'n portreadu deg o'r adeiladau pwysicaf yng Nghymru – o Eglwys Tyddewi yn y de-orllewin i bont ddŵr Froncysyllte yn y gogledd-ddwyrain.

Mae'r DVD yn ffrwyth gwerth bron i flwyddyn o ffilmio, ac mae hefyd yn cynnwys ffotograffau gan gyfarwyddwr y prosiect, Gareth Butler. Yn ogystal â hyn mae'n cynnwys ffilm hanesyddol o byllau glo ynghyd â lluniau o Bont Transporter Casnewydd, Yr Hen Goleg, Aberystwyth, Abaty Ystrad Fflur, Senedd-dy Machynlleth, Eglwys Pennal, cartref Dafydd ap Gwilym, y Pwll Mawr a'r Gwaith Haearn, Blaenafon. Hyd y DVD yw 30 munud ac mae ar werth am £9.99 mewn nifer o siopau lleol.



I.O. Thomas a'i Fab
Cigydd, Penygarn
Cig Ffres i'r Rhewgell, Seliig Cartref
Oen Cymru, Cig Eidion Gorau
Ffôn: (01970) 828447



M & D PLUMBERS
Plumbing & Heating
Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i Bensiynwyr;
Yswiriant llawn;
iphe
Cysylltwch â Ni yn gyntaf ar
01974 282624 / 07773978352



Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwalt gan Richard
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llan-Gwenar
(01970) 832 674



Gwasanaeth Scania
ARTHUR MORGAN
Pencfen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292



James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU
Gofynnwch am bampffed
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicars Cross, Crossing,
Llande, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111



ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627



Tlws Coffa Tŷ-Llwyd Bonnie

Yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd dydd Llun diwethaf derbyniodd Dewi Jenkins, Tynygraig, dlws Coffa Tŷ-Llwyd Bonnie am yr ail waith, oddi wrth Cymdeithas y Cŵn Defaid Cymreig am y ci gorau a gafodd ei ddangos yn gweithio mewn gwahanol arddangosfwydd, a oedd yn agored i bob oedran yn ystod 2006.

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@yloffa.com

yloffa
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
yloffa@yloffa.com
www.yloffa.com

Elin Jones AC – O’r Cynulliad

Defnyddiais wasanaeth
bws y TrawsCambria
yn ddiweddar i fynd o
Geredigion i Fae
Caerdydd er mwyn
tynnu sylw at
ddiffygion y
gwasanaeth. Rwyf wedi
derbyn nifer o
gwynion am wasanaeth
yr X40 o Aberystwyth i
Gaerdydd, gan
gynnwys pensiynwyr
yn gorfod sefyll yn
ystod teithiau hir, yr
ifanc yn gorfod eistedd
ar lawr y bws a bysys
yn torri i lawr ar y



draffordd. Yn hytrach na buddsoddi mewn bysys newydd sydd ond yn addas ar gyfer teithiau lleol, dylai Arriva fod wedi prynu cerbydau sy’n fwy addas ar gyfer teithiau hir. Mae’r daith o Aberystwyth i Gaerdydd yn cymryd bron i bedair awr, sy’n gyfnod hir ar sedd galed a heb doiled! Bu’r ymateb i’r taith yn bositif tu hwnt, felly gobeithio bydd Arriva yn talu sylw i’r cwynion ac yn gwellar gwasanaeth yn fuan.

Rwy’n gefnogol iawn o benderfyniad y Cynulliad i roi blaenoriaeth i osod system o ‘sprinklers’ yn ein hysgolion. Mae’r Cynulliad wedi penderfynu cefnogi gosod systemau ‘sprinklers’ mewn adeiladau newydd ysgolion ac adeiladau sy’n cael eu hadnewyddu. Fodd bynnag, rwy’n credu y dylai pob ysgol gael system ac rwyf wedi galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gyllido hyn.

Rydym wedi rhoi tipyn o sylw i ofal iechyd yn y Cynulliad yn ddiweddar. Yn anffodus, fe fethodd cynnig Plaid Cymru i sicrhau bod gwasanaethau ‘neurosurgery’ yn aros yn Ysbyty Treforys, Abertawe, yn hytrach na chael eu symud i Gaerdydd. Rydym wedi trafod cynigion i ailstrwythuro’r gwasanaeth iechyd. Rhaid sicrhau nad yw Ysbyty Bronglais yn cael ei israddio ac mae’r ffaith bod y Gweinidog Iechyd, Brian Gibbons, wedi cyfeirio’n benodol at anghenion arbennig Ceredigion yn galonogol dros ben – amser a ddengys a yw’n dechrau newid ei feddwl ynghylch yr israddio.

Bu’n flwyddyn brysur tu hwnt ac mae’r flwyddyn nesaf yn argoeli i fod yr un mor brysur. Hoffwn ddymuno Nadolig Llawn i chi i gyd ac edrychaf ymlaen i’ch cyfarch unwaith eto yn y flwyddyn newydd.

Elin Jones AC

**A DAVIES
TRYDANOL**
Tŷ Morben Isaf
Derwenlas
MACHYNLLETH
Powys SY20 8SR
ALAN DAVIES Ffôn 01654 781213

Os am ddaeth neu heb inni
**CAMBRIAN
CABS**
Teithiau Pŵl ac Agos
01970 626292

CLWB CINIO TALYBONT

Ydych Chi’n Mwynhau Cymdeithasu,
Cael Hwyl, Cadw’n Iach, Mwynhau Bwyd Blasus?

**Ymunwch A Ni - Clwb Cinio Talybont.
Cwrdd Unwaith Y Mis Yn Y Llew Du**

Os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch â Jane Raw-Rees,
Swyddfa Aberystwyth, Cyngor Henoed Ceredigion,
Yr Hen Ysgol Gymraeg, Ffordd Alexandra,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1LF.
Ffôn: (01970) 615151.

E-bôst: jrr@ceredigionageconcern.fsnet.co.uk

Teulu'r Felin

Achub Bywyd

Mewn rhifyn o'r *Welsh Gazette*, 13 Ebrill 1905, ceir hanes gŵr yn syrthio i'r afon Leri yn Nhal-y-bont a sut yr achubwyd ef gan R. T. Griffiths, Y Felin. Roedd ef a James Jones, Y Ffatri yn sgwsio ar bont Leri un nos Lun dywyll wrth ymyl y felin, pan glywyd sŵn gweiddi i fyni'r afon o gyfeiriad caeau'r Llew Du. Rhedodd y ddau yno ac ar ei union dyma R. T. Griffiths i mewn i'r dŵr at ei ganol. Gan ei bod hi'n noson mor dywyll ni allai weld fawr ddim, yna clywodd rhyw sŵn byrlymog rhyfedd yn dod o'r geulan yr ochr draw a dyma ganfod ffedog wen yn ymdroelli i lawr yr afon tua'r bont. Rhydiodd y ffrwd gyflym a llwyddodd i afael yn y ffedog ac er syndod mawr iddo gwelodd mai corff dynol ydoedd wedi'r cwbl. Buan yr adnabu'r ffedog a'r siwmpwr ac wedi llwyddo i gael y corff anymwybodol i'r lan rhoddodd gymorth anadlu iddo ac ymhen dim amser gwelwyd arwyddion o fywyd. Dygwyd ef i'r Llew Du a buan y daeth ato'i hun heb fod fawr gwaeth ar ôl ei drochiad di-urddas. Canmolwyd gwroldeb arbennig R. T. Griffiths a'i ymateb sydyn i sefyllfa allai fod wedi bod yn angeuol iddo yntau hefyd. Ond dyna fo, un felly oedd R. T. Griffiths, Y Felin.

Yr Hen Felin

Roedd Richard Thomas Griffiths (1862-1938) yn aelod o Deulu'r Felin fel y gelwid hwy. Hen deulu oedd wedi cadw'r felin flawd yng ngwaelod y pentref ar bwys y bont er y flwyddyn 1800. Ei dad-cu Richard Griffiths (1770-1865) ddaeth yno i ddechrau ac ef oedd un o'r rhai sefydlodd achos y Bedyddwyr yn Nhal-y-bont. Roedd Richard Griffiths a'i fab William Griffiths (1820-1896) yn cadw mulod i gludo grawn o'r ffermydd a chario'r blawd yn ôl, ond erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif roedd y ffermydd yn cludo'r grawn a'r blawd eu hunain. Yn ystod y rhyfel byd cyntaf fe gafodd ffermwyr yr ardal eu peiriannau malu eu hunain ac arweiniodd hyn at ddifodiant y melinau. Erbyn 1933 roedd chwe melin yd yn segur yng ngogledd Ceredigion, ac yn 1924 bu'n rhaid i R. T. Griffiths a'i frawd John (1857-1932) roi'r gorau i gadw'r felin, gan symud i gadw Swyddfa'r Post yn Bristol House gan ddechrau yn y gwaith hwnnw ar 2 Chwefror. Tra yn cadw'r felin roedd y teulu'n byw ym Mhenybont (yr ail dŷ o'r afon wrth ymyl y bont). Symudodd R.T. Griffiths, ei ail ferch Lizzie, a'i frawd John oedd yn hen lanc, i gadw'r Post yn Bristol House gan olynu Mr Pugh yn y swydd o bostfeistr. Roedd Pugh yn symud i Abergele i fyw. Roedd wedi llwytho ei holl eiddo ar lori ac wedi aros mewn garej ym Machynlleth dros nos. Yn anffodus bu tân ysol yn y garej a difrodwyd bron y cyfan o'r eiddo gan gynnwys piano gwerthfawr a dodrefn drudfawr. Mewn erthygl yn y *Welsh Gazette* (9/11/1933) mae R. T. Griffiths yn rhoi hanes difyr yr hen felin. Adeiladwyd hi yn 1750 gan Ystad Gogerddan. Yn 1800 cymerodd ei dad-cu hi ar brydles o 60 mlynedd. Roedd ganddo deulu o ddeuddeg, a phob un wedi byw dros oed yr addewid gydag ef ei hun yn byw i fod yn 95 oed. Wedi hynny cymerodd tad R. T. Griffiths y felin ar brydles arall o 60 mlynedd. Pan fu ef farw ym 1896 carwyd ymlaen gan Richard a'i frawd John hyd at 1924. Roedd tair carreg lifanu a dwy olwyn ddŵr yn y felin ac ystyrid eu llifanu hwy gyda'r gorau. Serch hynny roedd ceisio creu bywoliaeth ohoni yn anodd ac yn aml byddai'n rhaid gweithio ddydd a nos i gael dau ben llinyn ynghyd. Er hynny, roedd gan R. T. Griffiths atgofion

melys iawn am yr hen felin. Yno y deuai henwyr y pentref at ei gilydd i drafod y peth hyn, a'r peth arall. Wrth ochr y felin yr oedd hen gartws sinc a rhoddwyd yr enw "Senedd Sinc" ar hwnnw gan bod gymaint o faterion yn cael eu penderfynu yno.

Ei Deulu

Ganwyd pedwar o blant i Richard Thomas a Jane Griffiths (1862-1909), sef William Richard, yr unig fab a thair merch, sef Katie (1893-1972), Lizzie (1895-1949), a Jennie. Mae'n bosibl mai Katie oedd yr enwocaf o'r tair. Yn sicr yr oedd hi'n alluog tuhwnt fel athrawes cerddoriaeth a chyfeilyddes o fri a hynny tra oedd hi'n ifanc iawn. Roedd Lizzie hithau â llais contralto gwych ganddi ac wedi ennill llawer ar lwyfannau eisteddfodol, ond dewis aros gartref i edrych ar ôl ei thad a'i hewythr a wnaeth hi, yn y felin ac yna yn y swyddfa bost. Priododd Jennie gyda'r Parch. J. Knighton Jones, Ficer Rhosycae, Fflint a Rhosllannerchrugog. Ef oedd mab hynaf Knighton Jones (1871-1955) a'i wraig Mary Ann (1868-1953) fu'n cadw'r Llew Gwyn yn Nhal-y-bont am 31 o flynyddoedd. Eglwyswyr selog oeddynt hwy. Roedd R.T. Griffiths o ran ei natur yn garedig, hynaws a chyda chydymdeimlad mawr tuag at ei gyd-ddyn yn arbennig y rhai llai ffodus nag ef. Yn ddarllenwr eiddgar, ac yn hyddysg yn yr ysgrythurau, chwaraeodd ran amlwg iawn ym mywyd gwleidyddol, cymdeithasol a chrefyddol gogledd Ceredigion. Roedd hefyd yn gerddor gwych, ac yn un o sylfaenwyr Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr ac ef oedd yr arweinydd am nifer fawr o flynyddoedd. Bu galw mynych am ei wasanaeth fel beirniad mewn eisteddfodau ac yntau'n arweinydd wrth reddf. Ef hefyd oedd sylfaenydd ac arweinydd Côr Meibion Tal-y-bont oedd ar frig eu poblogrwydd tua 1888. Bu'n gadeirydd Cyngor Dosbarth Gwledig Aberystwyth ac yn aelod o hen Fwrdd y Gwarcheidwaid. Am 25 mlynedd bu'n ysgrifennydd Cymdeithas Sioe Tal-y-bont o 1906 i 1932, ac ef yn anad neb a'i gosododd ar sylfeini cadarn yn ystod y blynyddoedd cynnar. Ef oedd ysgrifennydd cyntaf Cangen Ceredigion o Undeb yr Amaethwyr, a hyd at ei farwolaeth ef oedd ysgrifennydd Cangen Gorllewin Cymru o Gymdeithas yr Is-bostfeistri. Yn Fedyddiwr i'r carn, roedd yn un o ddiaconiaid hynaf y Tabernacl ac wedi bod yn arweinydd y gân yno am 50 mlynedd. Ef yn ogystal oedd trysorydd Cwrdd Chwarter Bedyddwyr Ceredigion, a pha swydd bynnag yr ymgymera'i â hi fe'i cyflawnai gydag urddas ac anrhydedd.

HLL



Côr Meibion Tal-y-bont a sefydlwyd gan R T Griffiths y Felin

Huw Lewis Tre'r Ddôl

Mae'n debyg mai *full speed ahead* dylai'r thema fod y tro hyn oherwydd y gwrthrych yw Huw Lewis, Tre'r Ddol ac mae Huw ar fin cymered rhan yn Rali Cymru. Fe fydd Huw yn gyd-yrwr i Gwyndaf Evans o Ddolgellau ac yn ogystal a chystadlu yn Rali Cymru ma'r ddau yn gobeithio casglu mwy o bwyntiau ym mhencampwriaeth Ralio Prydain. Ar ol cystadlu mewn cyfres o ralïau dros y tymor mae Gwyndaf a Huw ar hyn o bryd ar y bedwaredd safle yn y bencampwriaeth gyda siawns dda o ennill.

Fe fydd Rali Cymru 2006 yn cael ei rhedeg dros 222 milltir gan gychwyn o Gaerdydd ar y cyntaf o Ragfyr ac yna dros y ddau ddiwrnod nesaf fe fydd y ceir yn gwibio dros 17 cymal yn Ne a Gorllewin Cymru, chwech cymal ar ffyrdd grafel y Comisiwn Coedwigaeth a dwy ar weundir ar fynydd Epynt, gyda pob cymal yn cael ei ddefnyddio dwy waith. Ac yna ar ben hyn ar y dydd Sadwrn ceir cymal arbennig Caerdydd ar lawr Stadiwm y Mileniwm. Y cymal agosaf i'r ardal hon yw Trawscoed ar dydd Sul y trydydd o Ragfyr – cymal olaf y rali fel mae'n digwydd.

Fel gyda pob camp rhaid paratoi ac yn ol Huw mae na ddwy agwedd i hyn. I gychwyn rhaid ymarfer ar y cymalau- ma nhw eisoes wedi gyrru ar hyd bob cymal ddwy waith – dim mwy na 35 milltir yr awr – i gyfarwyddo a'r troeon a gwyneb y ffordd. Er fod Gwyndaf a Huw yn 'chwarae adref' fel petai ac yn hen gyfarwydd a'r cymalau dyw hyn ddim yn rhoi llawer o fantais. Mae taith y rali wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen ac felly yr un mor gyfarwydd i yrrwyr o Ffrainc neu Denmarc. Wrth ymarfer mae Huw yn gwneud nodiadau manwl – *pace notes* – ac yn galw y rhain allan i Gwyndaf wrth iddyn nhw gystadlu. Er fod y nodiadau'n bwysig mae Huw yn sylweddoli y gallai pethau fod wedi newid cryn dipyn pan fyddan nhw ar y cymal go iawn. Mae'r tywydd yn gallu effeithio ar wyneb y ffordd ac yn naturiol wrth i un car ar ol y llall sgrialu ar draws y grafel mae'r wyneb yn torri i fyny – a'r bois mawr yn y gem sy'n cael y fantais o fynd gyntaf.

Yn ail, rhaid paratoi'r car. Mae'r ddau yn cystadlu mewn Mistubishi Evo – car gyriant pedair olwyn y gallech chi a fi fynd allan a phrynu, ond mae un Gwyndaf a Huw dipyn yn wahanol i'r model welech chi yn y garej. Dim ond un car arall yn y rali – Subaru – sydd a gyriant pedair olwyn ac yn ol Huw mae hyn yn gallu bod yn fantais sylweddol – yn arbennig os fydd y tywydd yn wlyb. Cwmni o'r Trallwng sy'n paratoi'r car gan wneud rhywfaint o newidiadau i'r corff a'r peiriant. O ganlyniad mae'r car yn gryfach ac yn medru gwrthsefyll y gyrru caled ond mae'n debyg mae'r ychwanegaid pwysicaf yw'r gell ddiogelwch – *safety cage* - tu mewn i'r car. Mae hyn oll yn golygu fod y car yn werth rhwng £80,000 a £90,000. At hyn fe fydd tim cynnal o rhyw wyth yn cynorthwyo'r ddau drwy gydol y rali – newid y teiars a trwsio fel bo'r angen. Dengys hyn oll fod cystadlu ar y lefel hyn yn fusnes drud iawn ac mae Gwyndaf a Huw yn derbyn sponsoriaeth gan gwmni Hankook – cwmni teiars o Korea. Er fod y nodded yn hanfodol mae Huw yn cyfaddef ar unwaith nad yw e'n agos at y miloedd a werir gan y timau mawr megis Ford a Citroen.

A felly, mae'r paratoi drosodd a dyna Gwyndaf a Huw ar linell gychwyn un o'r cymalau a dyna wrth gwrs y prawf go iawn. Anodd dychmygu'r profiad – ond yn eich meddwl eisteddwch am eiliad yn sedd Huw fel cyd-yrwr. Swyddog y rali yn eich cyfri lawr 4,3,2,1 ...ac yna mewn storm o swm a chwmwl o grafel i ffwrdd a chi. Nawr, fel ymhob camp mae'n debyg, mae'r adrenalin yn llifo a does gyda chi



ddim amser i feddwl am ddim ond cynorthwyo'r gyrrwr i gadw'r car ar yr hewl. Does gyda chi ddim amser i feddwl am y coed yn melltio heibio rhyw fodfeddi i ffwrdd, does gyda chi ddim amser i feddwl am y dibyn islaw a does gyda chi ddim amser i feddwl fod y car yn troi am y chwith a llwybyr y ffordd yn mynd at y dde! Hyn oll ar gyflymdra o dros gan milltir yr awr! Dyw Huw ddim yn meddwl am hyn oll oherwydd i fod e'n gwybod fod e yn nwylo saff a medrus a rhagoriaeth Gwyndaf yn ol Huw yw i fod e'n yrrwr llyfn – wastad yn gosod y car ar y llinell iawn ac felly yn medru cadw at gyflymder cyson – dyma'r ffactor uwchben pob peth arall sy'n gwneud gyrrwr da. Hefyd gan fod e'n brysur yn darllen y nodiadau does gan Huw ddim amser i sylwi rhyw lawer a cyn iddo fedru tynnu anal bron mae'r cymal drosodd.

Un peth arall dyw Huw ddim ond yn cael cip arnyn nhw yw'r miloedd a fydd yn mynd i wylïo'r rali. Huw ddim yn gweld felly ond Gwyndaf yn gorfod gweld y cyfan ac yn aml yn dweud ar derfyn y cymal, *welest ti hunna yn sefyll yn y lle twp na?* Mae na ddamweiniau wedi digwydd yn y gorffennol a dyna ym marn Huw un o'r prif resymau – gwylwyr yn sefyll mewn lle cyn sy'n i rhoi nhw a'r cystadleuwyr mewn peryg.

Mae Huw wedi bod yn ralïo ers 1978 ac felly wedi bod wrth y gem am bron deng mlynedd ar hugain. A nawr, a fe wedodd hyn, mae e'n dechrau teimlo ei oed ac eto fel ymhob camp, fe all fod gan gystadleuwyr ifanc rhwy fath o *edge* sy ddim gan y bois hyn. Ond wedyn, ar unwaith mae'n cydnabod fod ysgol brofiad yn ysgol bwysig ac bod hen law wrth y llyw, ac wrth y map yn medru dangos ambell i dric i'r lleill. Beth bynnag ddaw i'r ddau yng nghoedwigoedd Cymru yn 2006, mae Huw yn tybio mae dyma'r tro olaf y bydd e'n cystadlu yn Rali Cymru. Ond wedyn mae e'n ychwanegu'n syth – os na nhw ennill ei dosbarth – ac mae gyda nhw siawns dda – fe fyddan nhw'n cael mynediad rhad ac am ddim i Rali 2007.

Ar derfyn ein sgwrs, rwy'n gofyn i Huw os oedd ofn arno fe weithiau? A'r ateb profoclyd? *Ti wedi gweld lliw yng ngwallt ond wyt ti!* Wel, beth bynnag ddaw, gawn ni weiddi i Gwyndaf a Huw – un o dim ond chwe tim o Gymru - *Go Gwyndaf, Go!* ac ar yr un llais *Hwyl Huw, Hwyl!*

Cafodd Gwyndaf a Huw gychwyn da iawn i'r Rali ac ar derfyn y diwrnod cyntaf roddent yn bedwerydd yn ei dosbarth. Yna ar y cymal cyntaf ar y dydd Sadwrn yng nghoedwig Crychan, torrodd y ger bocs ac er fod y ddau wedi llwyddo i ail ymuno a'r Rali, roedd gormod o amser wedi ei golli. Fodd bynnag, roeddent yn fuddugol yn yr Mitsubishi Evo Challenge ac felly yn cael cystadlu yn Rali blwyddyn nesaf yn rhad ac am ddim. Gwell lwc yn 2007!

GIE

Papur Pawb 25 Mlynedd yn ôl

Rhai pytiaau wedi eu dethol o rifyn Rhagfyr 1981



CLWB FFERMWYR IFANC TALYBONT

Bu nosweithiau'r clwb yn boblog-aidd iawn eleni ymysg yr aelodau gyda llond y neuadd fach bob nos Fawrth i fwynhau amrywiaeth o adloniant, o'r sosial blynyddol i 'daith hel ysbwriel', helfa drysor a theithiau eraill trwy gyfwrng llun a gair i Seland Newydd. Bu thai aelodau am benwythnos i Swydd Lincoln ac eraill ar ymweliad a ffatri gwrw ac i Gaerfyrddin i chwarae sgïls. Cafodd y Clwb lwyddiant yn Eisteddfod Clybiau

Uchod gwelir swyddogion y clwb am eleni, sef: K. Davies, Aeron Edwards, Mair Jenkins ac Ann James (yn eistedd) a Eirwyn Jones a Glyn Davies (yn sefyll)

Pfermwyr y Sir ar Dachwedd Tied. gyda Delyth Jenkins, Glenys Jones, Dafydd Jenkins a Gwynneira Raw-Rees yn ennill gwobrau.

Trefnwyd Helfa Drysor lwyddiannus o amgylch Y Borth gyda Dilwyn a Marion Evans yn fuddugol ac Alan James yn ail. Ar 24 Tachwedd cafwyd noson fendigedig yn nghwmni Mr Hywel Harrles a ddangosodd sut i fynd ati i wneud cartwnau.



Cyfarfod y Chwiorydd, Rehoboth

Ar Hydref 10fed cawsom ddechreuad gwych i'r tymor pan oedd Ann Jenkins wedi paratoi orig o ffilmiau yn cynnwys digwyddiadau diddorol. Er bod Ann ei hun yn methu bod yno cawsom hanes boddi Nantymoch, penblwydd Mrs Alwen Williams, Y Berllan, yn gant oed a'r diweddar D.T. Lloyd, Penrhiw yn wythdeg. Gwelwyd y diweddar R.S. Thomas y bardd enwog a fu yn ficer yn Ysguborycoed yn crwydro'r mynyddoedd, ac yn cael ei ysbrydoliaeth drwy astudio cymeriadau'r ardal. Cawsom gipolwg ar lawer o'r aelodau, a phriodas go arbennig o'r chwedegau! Diolchodd Eirlys i Ann am brynhawn plesurus.

Roedd yr ail gyfarfod ar Dachwedd 14eg, prynhawn spesial, cyflwynodd Eirlys, Robert Williams, Penywern, 'chef' o fri, a oedd wedi dod i ddangos i ni'r merched sut oedd defnyddio teclyn ar gyfer gwneud salad lliwgar a blasus. Cawsom hefyd flasau caws bri wedi ei daenu mewn fflwr a dŵr a brywsion bara a'i ffrio mewn olew. Hyfryd yw meddwl fod gennym wr mor arbennig a Jamie Oliver yn byw yn ein plith. Diolchodd Non am brynhawn i'w gofio.



Merched heini Tal-y-bont yn ymarfer y Ioga

MERCHED Y WAWR TAL-Y-BONT A'R CYLCH

Dechreuodd y gangen baratoi ar gyfer y nadolig trwy wahodd Ruth Jên a Helen Jones i gynnal gweithdy cardiau nadolig. Roedd y ddwy wedi cynllunio amrywiaeth o gardiau syml a thrawiadol a chafwyd cryn bleser yn torri, gludo a gwnïo. Braf hefyd oedd cael sgwrs a chlonc wrth weithio. Diolchwyd i'r ddwy gan Ann Jenkins.

Teithiodd y gangen i Lanfarian ar Nos Fercher. Tachwedd 29ain i gymeryd rhan mewn noson nadoligaidd ei naw. Canodd y côr ddwy garol, cafwyd darlleniad digri, sgets ac arddangosfa grefft. Mwynhawyd swper ardderchog cyn troi am adre. Cynhelir ein gwasanaeth nadolig ym Methel ar 17, Rhagfyr am 6 o'r gloch. Gwneir casgliad tuag at gartref Hafan y Waen.

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personal

Martin Davis
10-y-coed, Tre Talleia, MACHYNLLETH
Ffôn: 01239 830 830 Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1239 832230 afiaith@aol.com

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

Cantref

POBL YW'N GWAITH -
YMUNWCH Â NI

Aelodau Bwrdd

Mae Cantref yn y busnes o ofalu am bobl - ac nid dim ond eu cartrefu, ond gofalu hefyd am gymunedau lleol, yr iaith a'r economi. I wneud yn siŵr ein bod yn cadw'n agos at bobl yr ardal, mae gennym Fwrdd Rheoli sy'n cynnwys ein tenantiaid ein hunain a phobl leol eraill. Gwaith y Bwrdd yw gwneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau. A hyd yn hyn rydyn ni wedi cyflawni llawer: dros 25 mlynedd rydyn ni wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r holl ardaloedd rydyn ni'n gweithio ynddynt; Ceredigion, Gogledd Sir Benfro, Gogledd Sir Gaerfyrddin ac ardal Machynlleth - yr union lefydd lle'r rydych chi hefyd yn byw a gweithio. Nawr rydyn ni'n gofyn i chi roi o'ch amser, eich profiad a'ch synnwyr cyffredin drwy ymuno â'r Bwrdd. Nid oes hawl gennym i dalu Aelodau'r Bwrdd ond gallwn ad-dalu eich costau. Ond, y gwir wobr yw gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Os ydych chi'n credu mewn cymunedau cryf, ymunwch â ni gan mai pobl yw'n gwaith.

Mae croeso i chi gysylltu â Lynne Grenfell, Rheolwr Adnoddau Dynol, ar 01239 712036 i gael mwy o wybodaeth a sgwrs anffurfiol.

CYMDEITHAS TAI CANTREF
Llys Cantref, Lôn yr Eglwys, Castell Newydd Emlyn,
Sir Gaerfyrddin, SA38 9AB.
Ffôn: 01239 712 000 E-bost: post@cantref.co.uk

INVESTOR IN PEOPLE
BUDENHEDDWR MERA POBL



Cinio'r Henoed

Dydd Sadwrn, Rhagfyr 2il cynhaliwyd cinio i henoed plwyf Llangynfelyn yn y Wildfowler, Tre'r Ddôl a chafwyd prynhawn difyr yn mwynhau'r bwyd a'r sgwrsio. Diolch i bawb gyfranodd at lwyddiant yr achlysur.



GWOBR I DAVID

Yn ystod mis Hydref cafodd David Griffiths [Glanleri, Tal-y-bont gynt] ei anrhegu â gwobr arbennig oddi wrth y cwmni Amerig sydd yn ei gyflogi. Cafodd addurn wedi ei gynllunio mewn grisial ynghyd â mil o ddoleri. Roedd y gwobrau am iddo deithio dwy filiwn o filltiroedd heb yr un ddamwain. Mae bellach wedi teithio drwy pob talaith yn yr Amerig, a gweld llawer o ryfeddodau. Gan fod ganddo ddiddordeb arbennig mewn byd natur, bydd bob amser yn cario camera gydag e sydd yn rhoi llawer o bleser iddo.

Er yn gweithio ymhell o'r hen wlad mae ei ddiddordeb yn gryf ym mro ei febyd. Mae derbyn *Papur Pawb* yn rhoi llawer o bleser iddo ac yn fodd i gadw cysylltiad â Thal-y-bont.

Man Geni Syr John Rhys

Rwyf wedi mwynhau'r drafodaeth ar Syr John Rhys a'r ddamcaniaeth mai yn Rhydyronnen y ganwyd ef. Rhydyronnen oedd fy nghartref am ddeng mlynedd ar hugain, ac yno'm ganed, a buaswn wrth fy modd pe bai'r ysgolhaig mawr wedi ei eni yno hefyd. Nid felly y bu rwy'n ofni. Er fod ei dad-cu a'i fam-gu, sef John ac Anne Mason, yn byw yn Rhydyronnen yn 1851 nid oeddynt yno yn 1841. Yn ôl y Cyfrifiad, gŵr o'r enw John Davies a'i deulu oedd yno. Felly gan fod Syr John Rhys wedi ei eni yn 1840 nid yn Rhydyronnen y ganwyd ef, ond mae'n siwr ei fod wedi treulio llawer o amser yno ac yng Nghapel Ceulan.

M.E. Thomas

O.N. Mae Cyfrifiad 1841 o'r ardal ar gael – un 1861 sydd wedi mynd ar goll.


Clwb Ieuenctid Talybont

DIM YMATEB

Yn anffodus ni chafwyd unrhyw ymateb i'n cais yn y rhifyn diwethaf o Bapur Pawb am wirfoddolwyr i ymuno a'r tîm o arweinyddion. Felly tybed a allwch chi feddwl am rywun arall a fydd yn gallu ystyried y cais. Cysylltwch os gwelwch yn dda gyda Gerwyn Jones (832203; Catrin Mason (832075) neu Dei Nutting (832027). Diolch.

Geiriau Cyntaf - Llyfr Mawr Newydd i'r Dolig!

Mae llyfr bwrdd mawr lliwgar 'Geiriau Cyntaf/First 100 Words in Welsh' newydd ei gyhoeddi gan gwmni lleol Atebol ar gyfer babanod a phlant ifanc. Mae'r clasur dwyieithog hwn yn rhoi cyfle i blentyn i ddysgu ei eiriau cyntaf yn y Gymraeg. Mae'r gyfrol hardd hon yn cynnwys dros 100 o eiriau cyntaf hanfodol a lluniau lliwgar. Mae'n addas ar gyfer plant sy'n Gymry Cymraeg neu'n sy'n dysgu'r Gymraeg fel ail iaith. Llyfr trawiadol sy'n werth ei weld a'i fodio! Addas iawn i deuluoedd dwyieithog sy'n awyddus i ddysgu'r Gymraeg. Bargen y flwyddyn am £5.99. Holwch eich siop lyfrau lleol am yr anrheg ddelfrydol a fydd yn siŵr o blesio!



GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Cofio'r Dyddiau Da

Wrth ddarllen yn y rhifyn diwethaf bod Gwilym ac Eleri'n rhoi'n lan fel golygyddion cyffredinol, anodd credu pa mor hir mae *Papur Pawb* wedi parhau i fynd. Hel rhyw hanesion lleol oeddwn i, o'r dyddiau cynnar, a llawer gwaith y galwyd Gwilym i gyfri am ryw stori ddychmygol y byddwn wedi ei chyfrannu o bryd i'w gilydd!

Un da am straeon o Bentrebach oedd y diweddar Richard Owen, Ynyscapel. Roedd yna stori am wraig oedd yn gwneud eli llosg tân; gofynnodd rhywun iddi am eli a hithau'n gwrthod. Dywedodd y meddyg, 'Cadw fe, y diawl – falle bydd yn dda i ti ei gael yr Ochr Draw'.

Mae'n syndod faint o'r cyfranwyr dros y blynyddoedd sydd bellach wedi'n gadael, a ninnau erbyn hyn yn nabod cyn lleied o'r pentrefwyr. Caodd Ysgol Bontgoch, a chludir y plant mewn bws i lawr i Dalybont. Caewyd capel Ebenezer, a heddiw mae'n dŷ byw. Cynhelid Eisteddfod yno bob blwyddyn; un tro cafwyd Eisteddfod Gadeiriol a byddai Pasco Davies, plismon o Bow Street, yn dod i drio cadw heddwch – ond gwneud pethau'n waeth wnâi hwnnw!

Roedd rhai bechgyn o Dal-y-bont wedi dod i fyny ar gefn ceffyl Tomos John Cerrigmawr, a hwnnw drannoeth yn gorfod crwydro'r Cwm i chwilio'r ceffyl. Dro arall benthycwyd piano o Ysgol Tal-y-bont, a Tomos John oedd yn gyfrifol am fynd â'r gambo i'w nôl. Rwy'n cofio dod adre o'r ysgol un pnawn a gweld piano ar y gambo yn y tŷ gwair. Dyna i chi lawenydd mawr, gweld piano! Ceisiodd fy nhad gadw pethau'n dawel ond mae'n debyg fod Tomos John wedi moelyd y gambo a'r piano ar bwys Pont Cwmere, ac yno y bu am rai dyddiau nes i rywun arall fynd ag e i ben y daith!

Hen Ffrindiau

Yn ddiweddar gelwais i a Barbara ym Mhlas Cwm Cynfelin, Clarach, i weld hen ffrind, sef David Rowland Jones. Cafodd ei eni a'i fagu ym Mrynfedwen Fawr yng Nghwm Tynant. Roedd wedi cael triniaeth fawr ac wedi colli ei goes. Mae'n ddarllenlydd brwd o *Papur Pawb*, felly dyma ddymuno gwellhad buan iddo. Bu David yn dod yn aml i Gwmere pan oedd yn blentyn gan fod ei daid, John, wedi gweithio acw am nifer o flynyddoedd.

Un arall a welsom yng Nghlarach oedd Mrs Margaret Evans, gweddw y diweddar Barch. Gwyn Evans, a fu'n weinidog am flynyddoedd ym Methel, Tal-y-bont, a thad Geraint Evans, Garnwen. Roedd hi ar fin cael ei the pan alwon ni heibio, ond cawsom groeso cynnes iawn a sgwrs hynod ddifyr.

Ychydig ddyddiau'n ôl galwodd Afonwy i'n gweld. Arferai ef a'i rieni – Wil Jones ac Annie Minora – fyw yn James Street, Tal-y-bont, cyn symud i Bentrebach ac wedyn i Birmingham lle bu raid i'w dad fynd i weithio mewn ffatri gwneud arfau. Aeth Afonwy i weithio mewn ffatri a dysgu'r grefft o drin gemau. Mae'n 74 oed erbyn hyn ac yn ymweld â'r ardal yn gyson, a'i rieni wedi eu claddu yn Nhal-y-bont. Mae'n briod â Jane, a chanddynt ddwy ferch ac enwau Cymraeg ar y ddwy.

HT

SEFYDLIAD Y MERCHED EGLWYSFACH

Bu ein Cyfarfod Blynddol ar 6ed o fis Tachwedd. Y Pwllgor ar gyfer 2006/2007 yw Jenny Dyer (Llwydd), Celia Groves (Trysorydd), Liz Spencer, Judith Pearson, Jill Roberts, Jo Pettitt, Vik Bamford, Wendy Fuller a Juliet Regan. Diolch i Keith Fletcher a Barry Thomas am ddod i gyfri'r pleidleisiau. Yn dilyn, roeddwn yn ddigon ffodus i gael Judith Hopkins, aelod o'r sefydliad, i'n diddanu trwy ganu a chwarae'r gitar.



Hwrdd Glanrafon

Llongyfarchiadau i Dyfed Evans, Glanrafon ar werthu hwrdd blwydd yn arwerthiant Hyrddod Mynydd Cymreig, Maldwyn a Cheredigion yn Nolgellau am 10,500 gini, sef pencampwr y brid yn Sioe Tal-y-bont eleni.

CYNGOR CYMDEITHAS CEULANAMAESMAWR

Yn dilyn cysylltu â'r Heddlu yn Aberystwyth yn ddiweddar ynglŷn â plismona yn yr ardaloedd gwledig, rhoddwyd gwahoddiad i'r Arolygydd Alun Samuel a'r Swyddog Plismona Bro, Heddwes Hefin Jones ddod i gyfarfod o'r Cyngor nos Lun olaf o Dachwedd.

Estynnwyd croeso cynnes iddynt gan y Cadeirydd ac agorwyd y cyfarfod gyda'r Arolygydd yn egluro nad oes dim newid wedi digwydd i blismona yn yr ardal a'u bod yn gweithredu yn unol â gofynion Plismona Bro Cenedlaethol gan sicrhau fod y gymuned yn cael yr un gwasanaeth ag yn y gorffennol.

Yr Heddwes yna'n egluro'i ddyletswyddau fel un a chyfrifoldeb am yr holl ardal wledig a'r pentrefi i'r gogledd o Aberystwyth. Y mae'n fwrriad ganddo ail ddechrau'r cynllun gwarchod ffermydd gan bwysleisio fod dwyn defaid a pheiriannau fferm yn digwydd hyd yn oed yn ardaloedd mwyaf gwledig ein cymunedau. Ei ddymuniad hefyd yw sefydlu man cyfarfod yn y pentref unwaith yr wythnos fel bo'r trigolion yn cael cyfle i'w gyfarfod a thrafod unrhyw broblem. Wrth iddynt ymadael diolchwyd i'r ddau am eu parodrwydd i gyfarfod â'r Cynghorwyr. Agorwyd y Cyngor gyda chroeso'r Cadeirydd, Cyng. Ellen ap Gwynn i Gyngor llawn o unarddeg aelod. Cytunwyd bod cofnodion y Cyngor blaenorol yn adroddiad cywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd. Derbyniwyd llythyr oddi wrth yr Adran Priffyrdd yn mynegi na fyddai'n bosibl iddynt gasglu sbwriel oddi wrth dri annedd ar gyrion Bontgoch oherwydd culni'r ffordd a theithio arni heb eisiau. Nid oedd y rhesymau yma'n dderbyniol gan y Cynghorwyr ac anfonir at yr Adran eto gan gyflwyno rhesymau ychwanegol dros y gwasanaeth i'w hail ystyried ganddynt.

Y mae partneriaeth adfywio Menter Aberystwyth yn awgrymu'r angen am gysylltiadau cryfach gyda chymunedau a gofyn am gyfraniadau ariannol i'w helpu i barhau i fod yn rym cynladwy gwirioneddol ar gyfer newid yn ein cymunedau.

Darllenwyd llythyr oddi wrth Dŵr Cymru yn egluro eu bod yn paratoui adroddiad llawn i'w ymchwiliad i drafferthion diweddar yr orsaf bwmpio carthffosiaeth a chyflwr Heol James. Gwerthfawroga'r cwmni nad yw wyneb y ffordd yn dderbyniol a hwyrach yr ymgymerant a rhywfaint o welliannau fel arwydd o ewyllys da er nad yw gweithredoedd cyfreithiol rhwng y cwmni a'r trigolion yn rhoi unrhyw gyfrifoldeb arnynt i gynnal a chadw'r ffordd.

Yn dilyn adroddiadau ar y cyfryngau a'r Cambrian News yn ddiweddar ynglŷn â phenderfyniad y Cyngor Sir i gyhoeddi adroddiadau'r Cyngor yn Saesneg yn unig mae'r Cyngor Cymuned yn teimlo'n gryf yn erbyn hyn. Penderfynwyd anfon gair i fynegi gwrthwynebiad llwyr a gofyn iddynt ail ystyried eu penderfyniad a rhoi'r un pwyslais i'r Gymraeg a'r Saesneg yn eu adroddiadau yn fuan.

GJ



Neuadd Goffa Tal-y-bont

Cynhaliwyd y Ffair Nadolig flynyddol ar ddydd Sadwrn, 25 Tachwedd. Er gwaetha'r cawodydd fe ddaeth cynifer o bobl i gefnogi'r achlysur ac fe gafwyd prynhawn llwyddiannus dros ben. Fel arfer, roedd y Cymdeithasau wedi bod wrthi'n brysur yn casglu nwyddau ar gyfer eu gwerthu ar y stondinau ac anrhegion tuag at y raffl a da ydy medru dweud ein bod wedi gwneud dros £1,000 yn ystod y prynhawn. Mi fydd y swm yma yn help mawr tuag at gostau cynnal a chadw'r Neuadd yn isel ar gyfer y gwahanol gymdeithasau sydd yn defnyddio'r Neuadd.

Fel arfer darparwyd paned a chacen ac fe gafodd pawb gyfle i sgwrsio a chlonca tra'n aros am yr amser i dynnu'r raffl. Mae'r raffl yn dal i fod yn boblogaidd dros ben.



Drwy gyfrwng colofn Papur pawb, hoffwn ddiolch yn garedig i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i wneud y prynhawn yn un llwyddiannus ac yn enwedig i fy nghyd-aelodau ar y Pwyllgorau sydd bob amser mor barod i helpu. Hefyd, rhaid peidio ag anghofio am y gwragedd a gwŷr yr aelodau sydd ar y Pwyllgor, maent hwythau wastad yn barod i helpu. Dalier sylw: Ni chynhelir cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli ym mis Rhagfyr. Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Fercher, 10 Ionawr 2007. Hoffwn ddymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

Eurllys Jones



Talwrn y Beirdd

Bu tîm Talwrn Tal-y-bont ar grwydr yn ystod mis Tachwedd i Lanwinio yn Sir Gaerfyrddin yn rownd gyntaf cystadleuaeth eleni. Er bod Llinwinio wedi gefeillio â Timbuktu cafwyd croeso twymgalon gan y gangenleol o Merched y Wawr a chystadlu brwd. Dyma'r cynnyrch a ddarlledwyd. Pob llwyddiant i'r tîm yn y rownd nesaf.

Pennill Dychan 'Ceffyl Blaen'

Heb allu hwn i arwain
Ni fyddai fawr o drefn,
Na phwrpas i'r asynod
Sy'n dilyn yn y cefn.
Ond os yw'n or-lwyddiannus
Gan ddenu clod i'w hun,
Bydd siwr o dderbyn pedol
Rhyw fwlsyn yn ei dîn.
Phil

Englyn yn cynnwys 'wedi hyn'

Unwaith buost yn barddoni – unwaith,
fe genaist rai cerddi.
Wedi hyn cyrhaeddaist di
yn feurn yn i'w glodfori.
Gwenallt

Ateb Llinell ar y Pryd

Pwy a wyr pa synnwyr sydd
A'n oes yn dal mewn ffosydd.
Gwenallt

Englyn Cywaith 'Blodyn' Pabi

Anodd ydoedd deall unwaith - nad rhwysg
Ond rhodd oedd dy wrtaith.
O'r llaid, gwêl fy llygaidd llaith,
Eu henwau'n deilio ganwaith.
Phil

Englyn ar y Pryd 'Cowboi'

Honnir bod y stetson honno - yn dal
dau alwyn yn gryno;
faint gwell yw ambell lembo
a dim rhwng ei glustiau o?
Gwenallt

Cân 'Stori' 'mywyd'

Dechreuais i sylwi pan oeddwn yn grwt
Fod menwod yn hoffi fy mochau bach twt.
Lle bynnag yr euthum mewn pram neu ar droed,
Y menwod a dyrrodd i'm mwytho'n ddioed.

A phan yn yr ysgol fe sylwais yn glou
Fod yr holl athrawesau â'u pennau yn troi
Wrth weld fi yn pasio â'm cwd yn fy llaw,
Ac yffach o job oedd eu cadw nhw draw.

Wrth gyrraedd y Coleg a'm sgarff ar fy ngwar
Peth perygl oedd myned am dro yn y car.
Holl ferched y Neuadd a neidiai i'r cefn
Gan fegian am reid yn yr Austin Seven.

Yr un yw y stori lle bynnag yr âf,
Boed Hydref neu Wanwyn, boed Aeaf neu'n Haf.
Rhaid gochel rhag dangos dim modfedd o gnawd
Neu cael fy labswchan bob dydd fydd fy ffawd.

A dyma fy ngofid wrth ddyfod am dro
I ardal Llanwinio fel lleidr ar ffo,
Bydd dynion yr ardal yn siwr o weld chwith,
Fod boi mor olygys, a fi, yn eu plith.
Phil

Dros Ben Shetin

Mae llawer o sôn heddiw bod y blaned rydym yn byw arni yn cynhesu. Cytunaf yn llwyr, a diolch am hynny! Ni faswn yn hoffi mynd nôl i 30au'r ganrif ddiwethaf pryd y'm ganwyd a dioddef gaeafau eithriadol o galed. Cofiaf yn dda, tra oeddwn yn ddisgybl yn ysgol Tal-y-bont, fod yr Afon Leri islaw'r bont fawr wedi rhewi'n gorn erbyn mis Mawrth bob blwyddyn a dyna lle byddai'r plant ac ambell oedolyn yn sglefrio arni. Cofiaf yn dda hefyd fynd i Ddolrhuddlan efo Nhad, Yncl John Glanrafon, ac Yncl Enoc y Winllan, wedi storm fawr 1933 i gael gweld pa olwg oedd yno. Cyn dod adref bu'n rhaid claddu 33 o ddefaid oedd wedi trengi o dan yr eira. Erbyn diwedd y 1940au a dechrau'r 1950au roeddem yn dechrau sylweddoli bod y gaeafau yn tyneru'n raddol ac eithriad bellach oedd cael storm fawr o eira fel a gafwyd yn 1947.

Nid ydym bellach yn cael llif coch Awst fel y byddem. Cyn y pumdegau ceid storm o fellt a tharanau ym mis Awst ac yna byddai'n bwrw glaw trane am oriau. Buan y byddai'r afonydd yn gorlenwi fel bod y dolydd o bobtu'r afon yn un llyn mawr coch. Erbyn heddiw, prin mae'r afonydd yn newid eu lliw ar ôl glaw mawr ac nid ydynt byth yn gorlifo.

Mae'r ddynoliaeth wedi newid yn fawr iawn hefyd ers pan oeddwn i'n blentyn. Mae llawer o bwyslais wedi ei roi ar addysg, a da o beth yw hynny os ydym yn gyntaf wedi dysgu'r pethau hynny sydd o dragwyddol bwys. Er bod llawer o'r gwybodusion hyn yn uchel eu cloch bod y blaned yn cynhesu, roedd y werin bobl yn gwybod hynny eisoes. Mae hyd yn oed Mr Blair yn awr yn meddwl mai fe sydd yng ngofal y blaned hon a bydd raid iddo gael rhai biliynau o bunnoedd i'w gwarchod. Druan ohono, mae'r pethau sydd eu hangen i oeri'r blaned i'w cael yn rhad ac am ddim dim ond eu gweithredu. Diolch byth nad Mr Blair na'r gwybodusion sydd â'r gofal am y blaned hon. Diolch byth fod yna ryw bwer uwchlaw gallu dyn yn cynnal y cyfan yn gadarn. Nid yw Duw yn byth ymhell o fyd natur ac mae'r pwer mawr hwn yn dal i warchod y blaned hyd heddiw.

Gaf i roi un enghraifft i chi sut y gwelais i'r pwer yma ar waith; gallwn roi llawer iawn yn rhagor petai gofod yn caniatáu. Yr ydym wedi cael rhyddid i wneud yr hyn a fyynnwn gyda'r blaned hon, ond nid penrhyddid chwaith. Gwelais y pwer yma ar waith adeg clwy'r gwartheg gwallgof. Roedd y gwybodusion wedi cael cymaint o addysg nes iddynt bron â dinistrio crefft gyntaf dynolryw drwy geisio newid deddfau natur i'w dibenion eu hunain er mwyn gwneud elw mawr. Buan iawn y sylweddolwyd na allant ymyrryd â deddfau natur a derbyn mai dim ond cynnyrch y maes sydd i fod i fwydo pob anifail sy'n fforchogi'r ewin ers dechrau amser.

Mae'r blaned hon wedi oeri a chynhesu o'r blaen ac mi wnaiff eto. Nid yw dyn byth yn mynd i ddinistrio'r blaned hon er cymaint o feddwl sydd ganddo ohono'i hun. Diolch byth fod llawer ohonom yn dal i ymddiried yn y pwer mawr yma o hyd ac yn hollol dawel ein meddwl mai Fe sydd wrth y llyw.

Gwilym Jenkins

Cangen Plaid Cymru Tal-y-bont

Dafydd Iwan, Llywydd Plaid Cymru oedd gŵr gwadd Cangen Tal-y-bont yn ystod mis Tachwedd. Dafydd yw cadeirydd Comisiwn Polisi Iaith Plaid Cymru, ac yn ystod y cyfarfod rhoddwyd amlinelliad i'r aelodau o argymhellion y Comisiwn. Nodwyd y modd y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar yr iaith Gymraeg o dan arweiniad Plaid Cymru. Nodwyd yr angen i wneud y Gymraeg yn iaith swyddogol, yr angen am Gomisiynydd Iaith, a'r bwriad i greu uned yn Adran y Prif Weinidog i gefnogi'r Gymraeg. Trafodwyd yn ogystal strategaeth addysg genedlaethol a mater tai fforddadwy. Yn dilyn sesiwn o gwestiwn ac ateb difyr dros ben, talwyd y diolchiadau gan Phil Davies, Cadeirydd y Gangen.

Thomas Gwynfryn Bond 1916 – 2006

Er i Gwyn gael ei eni yn Nhrebanos, Cwm Tawe, pan oedd Thomas ei dad yn lowr am nad oedd gwaith i'w gael yng ngogledd Ceredigion, dychwelodd y teulu i Dre-Taliesin ac ymsefydlu yn 1 New Terrace. Gan i'r tad farw'n 51 oed ym 1926 ni chefais y fraint o'i nabod dim ond clywed iddo fyw am gyfnod yn fachgen gyda'i fam-gu yn un o hen dai Fuches-Goch. Bu'n lowr yn Ferndale cyn mynd i Drebanos. Roedd wedi priodi Annie Richards o'r Borth i rieni a ddaeth yno o Aberdyfi, a'r tad yn forwr.

Ar ôl i mam a nhad a minnau'n flywydd oed ddod i fyw i 2 Terrace Row buan iawn y deuthum i nabod y cymdogion yn y ddwy stryd gan gynnwys Annie Bond a byddwn yn mynd a dod i'w chartref fel i'r tai eraill yn nyddiau'r gymdogaeth dda. Pan oeddwn yn dair oed a Iorwerth fy mrawd newyd gael ei eni rwy'n cofio am y drychineb pan ysgubwyd Mabel Bond a'i beic dros y bont fawr yn Nhal-y-bont i'r dyfroedd gwyllt a nhad yn nghwmni Gwyn ei brawd ac eraill wrthi am ddyddiau yn chwilio am ei chorff. A chofiaf ddiwrnod ei hangladd a'r ceffylau yn tynnu'r hers heibio'n tŷ ni ar y ffordd i fynwent Llangynfelyn.

Cyn y drychineb o golli Mabel yn 25 oed roedd Annie Bond wedi colli chwech o blant o ddwy i 9 oed ac fe welir eu henwau ar y garreg fedd. Goroesodd pump o'r plant ond gydag ymadawiad Gwyn dim ond John sy'n fyw ac yr ydym yn meddwl am ei chwithdod ag yntau heb fod yn dda ers tro.

Ar ôl dyddiau ysgol mynd i weithio fel gwas fferm fel llawer o'i gyfoedion wnaeth Gwyn a bu'n llafurio yn y Gelli, Dôlcletwr, Bwlcheinion, Neuadd yr Ynys, Penwern Dôl-y-bont, Fronfraith Comins Coch a Llwynglas Tal-y-bont lle bu'n gwasanaethu Ifor Jones a'i deulu am ddwy flynedd ar hugain. Roedd gair da iddo gan ei gyflogwyr a'i gydweithwyr a'r un oedd y dystiolaeth pan aeth i weithio i Adran Ffyrdd y Cyngor Sir yng nghwmni John ei frawd, Gwyn Royle a Glyn Price.

Fy modryb Marged Jane oedd y chwaer agosaf i 'nhad a deuai atom o Flaenplwy yn aml a'r ymweliadau'n amlhau pan ddechreuodd ganlyn Gwyn. Ac ar ôl iddynt briodi ar 29 Tachwedd 1952 daeth Gwyn Bond yn Yncl imi a minnau'n cael croeso mawr ganddo yn Stryd Pant-y-calch Tal-y-bont ac yn yr hen gartre yn Nhaliesin wedyn. Llonnwyd a llanwyd yr aelwyd pan aned Cyril ym 1955 a maes o law daeth Shena a Caryl ag Iwan yn rhan o'r teulu. Wrth gydymdeimlo â nhw mae'n dda fod ganddynt gyfoeth o atgofion am dad a thad-cu tu hwnt o annwyl.

Ar ôl i Anti Marged Jane farw ar 11 Hydref 2000 gwaethygu wnaeth iechyd yr ewyrth a threuliodd ymron bum mlynedd yng Nghartre Aber-mâd. Er nad oedd yn gallu siarad rhyw lawer llefarai drwy'i wên, 'y wên na phyla amser' chwedl Dafydd Iwan. Yn ogystal a Cyril a'i deulu bu John ac Avril a'm Modryb Katie yn ymweld yn gyson ag ef fel ambell gyfaill arall. Awn innau ato'n gyson a llwyddai i yngan fy enw ambell dro.

Daethom ynghyd i Eglwys Dewi Sant Tal-y-bont brynhawn Gwener 1 Rhagfyr i ddiolch am Yncl Gwyn yn yr addoldy lle bu yng nghwmni'i briod yn gwasanaethu fel gofalwr a warden am hir flynyddoedd fel y nododd y Ficer Brian Thomas yn ei deyrnged hyfryd. Cafodd Richard Jenkins ficer Cyril a minnau ran yn y gwasnaeth a chawsom gwmni'r cyn-Ficer Maldwyn Griffiths. A mynd wedyn i fynwent Llangynfelyn lle gorwedd teulu Annie Bond a'm Modryb Marged Jane. 'Da, was da a ffyddlon'.

Bil Stryd Isa





Be sy'n mynd 'mlaen yn y coed?

Mae yna gyfnod yn dod i ben eleni yn hanes un o goedwigoedd enwocaf Tal-y-bont, sef coed Llus Duon. Mae dyn a pheiriannau mawr wedi dod mewn a dechrau clirio'r cyfan. Pan oeddem ni yn blant, dyma ein maes chwarae ni. Treuliasom awr bron bob dydd yn chwarae yno ar ôl cinio. 'Roedd yn le bendigedig, coed derw llathraidd braf, a digon o nythod adar yn yr haf i ni i ddringo atynt, dysgom lawer iawn yn yr awr honno. Mwy na fod coed derw braf yno, 'roedd coed llus duon yn tyfu ym môn y coed derw, oddeutu llathen o uchder, ac yn cynhyrchu ffrwyth hyfryd bob blwyddyn, nid llus mân ond llus breision, a dyna lle byddem ni'r plant yn eu bwyta nes bod ein cegau a'n gweflau yn biws. 'Roedd gwragedd y pentref yn eu casglu drwy'r dydd i wneud tarten, a rhai yn eu casglu ac yn eu gwerthu yn Siop Evy, a chael arian poced amdanynt. 'Roedd yna ddigon i bawb.

Cyn diwedd y rhyfel daeth y cyfan i ben yn sydyn. Mynnodd y llywodraeth dorri'r cyfan i lawr a'u cario i lawr i'r pyllau glo, pob coed derw yn yr ardal. Yn wahanol iawn i heddiw, dim ond bwyall a llif finio oedd ganddynt, a nerth bôn braich i godi'r cyfan i'r lori. Yn syth ar ôl y rhyfel, daeth gorchymyn allan i bob un oedd wedi cwmpo coed adeg y rhyfel, fod rhaid i'r perchennog ail blannu. Os nad oedd y perchennog yn fodlon plannu, byddai'r llwydoraeth yn mynd a'r tir oddi arnynt a'i blannu ei hunain. Mr Tomi Annwyl, Anwylfan oedd berchen coed Llus Duon yr adeg hynny, a gan ei fod yn methu gweld ei ffordd yn glir i ysgwyddo'r gost o blannu, gadawodd y cyfan i'r llywodraeth. Buan iawn plannwyd y cyfan gyda choed estron, yn eu cyfer, heb ymgynghori â neb. Mae wedi bod yn goedwig farw ers hynny, collwyd y llus duon yn llwyr, collwyd yr adar. Nid wy'n meddwl i mi weld nyth brân yno byth wedyn.

Mae'r cyfnod dinistriol yma yn dod i ben eleni, a bydd ail gyfle i ddadwneud y llanastr. Mae'r llus duon i'w gweld ar hyd ymylon y coed hyd heddiw, a 'rwy'n siŵr mai buan iawn y cynyddant petaent yn cael hanner cyfle gan ddyn, a dod a'r coed cynhenid yn ôl.

Gobeithio bydd y Comisiwn Coedwigaeth yn meddwl ddwywaith cyn plannu'r tro nesaf, ac ymgynghori â'r Cyngor Bro cyn gwneud dim.

Yn dilyn sawl ymgais gan olygyddion Papur Pawb i gysylltu gyda'r Comisiwn Coedwigaeth, ni chafwyd ymateb ynglŷn a'i cynlluniau i'r dyfodol ar gyfer coed Llus Duon.

G.J.

Trip o'r 50au



Trip Capel Bethel yn y 50au i gartref "Elfed". Ydych chi'n cofio mynd ar y trip neu dripiâu eraill yn y cyfnod?

C.F.F.I. TAL-Y-BONT A'R CYLCH

Nôl yn nechrau Tachwedd, bu rhai o aelodau Clwb Tal-y-bont lawr yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd. Roedd aelodau o bob cwr o Gymru wedi dod at ei gilydd i berfformio yn y Gala, i ddathlu 70 mlynedd ers sefydlu Mudiad y Ffermwyr Ifanc trwy Gymru. Mi fydd y Gala yn cael ei ddarlledu ar S4C ar nos Sul, 17 Rhagfyr.

Ar nos Iau 23 Tachwedd a dydd Sadwrn 25 Tachwedd cynhaliwyd Eisteddfod y Sir lawr yng Ngholeg Llanbed. Cystadlwyd mewn nifer o gystadlaethau, ac wedi'r holl waith caled o baratoi cafwyd aml i wob:



Sgets – 3ydd

Geraint Jenkins, Eleri James, Catrin Jenkins a Dewi Jenkins

Unawd dan 13 – 3ydd

Elen Thomas

Deuawd Ddoniol – 3ydd

Eleri James a Geraint Jenkins

Llyfr y Trysorydd – 3ydd

Elgan Evans

Cystadleuaeth y Gadair – 3ydd

Mererid James

Hoffwn ddiolch i bawb a fu'n ein cynorthwyo eleni – Falyri Jenkins, Dulcie James a Rhian Evans.

Gan fod cynifer o aelodau yn y clwb, penderfynwyd eleni cystadlu yng nghystadleuaeth y côr. Rhywbeth nad yw Clwb Tal-y-bont wedi gwneud ers oddeutu pymtheg/ugain mlynedd! Gyda chynnifer o aelodau iau yn y clwb, a nifer helaeth ohonynt heb ganu pedwar llais o'r blaen, roedd tipyn o sialens ger bron yr arweinydd! Llauer o ddiolch i Falyri Jenkins am wneud gwyrtiau â ni, ac i'r aelodau i gyd am eu dyfal barhad i ddysgu'r darn. Hefyd, diolch i'r cyn-aelodau â ymunodd gyda ni yn y côr.



Yn dilyn yr Eisteddfod, y nos Fawrth ganlynol cafwyd noson yng nghwmni Ruth Jên. Daeth â tipyn o ddeunydd gyda hi ar gyfer creu cardiau Nadolig. Gyda'r esiamplau oedd ganddi i'w ddangos roedd yn ysbrydoli'r aelodau i greu cardiau unigryw eu hunain.

Llongyfarchiadau i Geraint Jenkins, Cerrigaranau, a fu'n cynrychioli Ceredigion yn y Ffair Aeaf – bu'n cymeryd rhan yn y gystadleuaeth Barnu Da Tew.

Eleni eto mi fydd Clwb Tal-y-bont yn crwydro'r fro yn Canu Carolau. Mi fydd yr arian a godir eleni yn mynd tuag at yr elusennau canlynol – Ymchwil Cancr Cymru, 'Debra Fund' a 'Send a Cow'.

CJ

CHWARAEON

Dringo'r Tabl

Mae pêl-droedwyr Tal-y-bont yn parhau i ddringo tabl Cynghairir Cambrian Tyres o ganlyniad i ddwy fuddugoliaeth dda yn ystod yr wythnosau diwethaf. Ar 25 Tachwedd curwyd Eilyddion y Brifysgol o bedair gôl i ddwy gyda Carl Jones, Sam Penfold, Steffan Fleming a Sam Fox yn rhwydo.

Y dydd Sadwrn canlynol daeth dîm Padarn United i faes Dolclettwr a chafwyd gêm hynod o gystadleuol ar brynhawn oer a gwyntog. Nid oedd y pêl-droed o safon uchel ond rhaid canmol ymroddiad y ddau dîm. Gallasai Tal-y-bont fod wedi sgorio yn gynnar yn y gêm ond methwyd cyfleon da ac er i Dal-y-bont barhau i bwyso, Padarn sgoriodd yn gyntaf ar ôl 38 munud o'r chwarae. Methodd amddiffyn Tal-y-bont a chlirio cic cornel o'r chwith gan adael Padarn i sgorio gôl syml.

Daeth y cyffro i gyd mewn cyfnod o chwarter awr ar ddechrau'r ail hanner. Sgoriodd Jamie Barron ond ataliwyd y gôl gan ei fod, yn ôl y llumanwr, yn camsefyll. Pum munud yn ddiweddarach manteisiodd Sam Penfold ar amryfusedd yn amddiffyn Padarn i ddod a'r sgôr yn gyfartal. Ac o fewn tri munud roedd Tal-y-bont ar y blaen - James Fox yn croesi a Sam Penfold unwaith eto yn ergydio i gornel y rhwyd. Gallasai James Fox fod wedi setlo'r canlyniad pum munud yn ddiweddarach ond ergydiodd yn wyllt dros y trawst. O fewn munud rhwydodd Padarn ond ar ôl cryn ddadlau penderfynodd y dyfarnwr atal y gôl gan fod y sgoriwr yn camsefyll. Bu Padarn yn pwyso yn ystod ugain munud olaf y gêm ond roedd Mark Davies yn gadarn yn gôl i Dal-y-bont. Yn y munudau olaf llwyddodd Robbie Southgate i fynd heibio amddiffyn Padarn a chroesi i James Fox ac fe rwydodd yntau i sicrhau'r tri phwynt i Dal-y-bont.

Erbyn hyn mae Tal-y-bont yn bumed yn y cynghairir gyda 16 pwynt o 11 gêm, safle boddhaol i dîm sydd newydd esgyn i'r adran gyntaf.



CODI Tŷ NEU ESTYNIAD?



Iwan Jones, Technegydd Pensoernïol
Gellincoerech, Tal-y-bont, Llandudno SY24 5HL
01478 832760

AM EICH HOLL
ANGHENION BRODWAITH,
CROESBWYTH A
THAPESTRIAU

GALWCH YN
**PWYTHAU'R
SGUBOR**

GER SIOP GOFFLA
CHREFFTAU PENNAU,
RHYDYPENNAU, BOW
STREET, ABERYSTWYTH
FFÔN: 01970 820122



CLWB NOS WENER

croeso nôl i Caryl Glyn

Roedd yn braf iawn cael croesawu Caryl Glyn a'r Band nôl i Dalybont wedi noson mor llwyddiannus y llynedd. Unwaith eto cafwyd noson hynod hwyliog o hen ffefrynnau Cymraeg y degawdau dwetha, wedu eu canu'n gydag arddeliad a chyda cyfeilio pwerus gan y band llawn. Roedd yn amhosib peidio sylwi ar chwarae slic a medrus Dafydd Saer ar y gitâr flaen, a roddai sbeis a blas i'r wledd gerddorol a gawsom. Fel y llynedd, denwyd nifer o glybwyr hen ac ifanc (a newydd!) i'r llawr ddawnsio ac yn wir yr oedd yn anodd gwahaniaethau rhwng yr oedrannau o ran ystythder ac ymroddiad! Tybed ai gwersi ioga Merched y Wawr sy'n gyfrifol?

Yn anffodus rhaid bod yn onest a chyfadde na ddaeth y nifer ddisgwyliedig i noson mor braf. Fel arfer ar yr adeg hon o'r flwyddyn mae 'na nifer fawr o bethau'n cael eu cynnal ond mae'n deg i ddweud bod 'na ryw ddiffyg cynllunio ar raglen y Clwb eleni. Ond y Clwb sy'n gyfrifol am ddod â drama Bara Caws i'r Neuadd yn fuan iawn â dewch yn llw i gefnogi a mwynhau drama iasoe'r Nadoligaidd Valmai Jones!

S. F. BYRNE
Adeiladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309
Gwneir pob math o waith

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy ebost (maesgwyn@fsmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.

TEIARS

HUW LEWIS TYRES

Rhodfa'r Parc, Aberystwyth
Ffôn: 01970 636774

Am bris cystadleuol ar bob math o deiars, ecsôsts, ac ati, cysylltwch â gwasanaeth lleol...

- Dewis eang o deiars
- Balansio Electronig
- Ecsôsts
- Tracio
- Brêcs
- Ar agor 6 diwrnod yr wythnos

